**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 18-01(p3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 5 Rhagfyr 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.15pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**PYSGODFEYDD**

**ADOLYGIAD O BYSGODFEYDD EOG A DWR CROYW**

**Pwrpas**

1. Darparu'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig gyda drafft diwygiedig o ymateb y Cynulliad i adroddiad y Grwp Adolygu Pysgodfeydd Eog a Dwr Croyw ar ddeddfwriaeth pysgodfeydd eog a dwr croyw. Rhoddwyd copïau o Adroddiad y Grp Adolygu i aelodau'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2000 ac ystyriwyd ymateb drafft cyntaf ar 16 Mai.

**Argymhellion**

2. Bod y Pwyllgor yn ystyried y drafft diwygiedig o ymateb y Cynulliad ac yn cymeradwyo ei gyhoeddi.

**Cefndir**

3. Yn ei gyfarfod ar 16 Mai, cytunodd y Pwyllgor y gallai'r ymateb i adroddiad y Grwp Adolygu gael ei gyhoeddi ar yr amod bod safbwyntiau'r Pwyllgor yn cael eu hystyried. Ysgogodd yr adroddiad ar weithrediadau'r Pwyllgor sylwadau pellach ar yr ymateb drafft hwnnw gan nifer o ACau ac eraill sydd â diddordeb. Yn ogystal, gwnaeth Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru), a fydd yn gweithredu llawer o argymhellion yr Adroddiad, gais am gyllid ychwanegol.

**Trafodaeth**

4. Mae'r drafft diwygiedig (cliciwch yma) yn cynnwys ymatebion i drafodaeth y Pwyllgor ar 16 Mai ynghyd â sylwadau eraill a dderbyniwyd wedi hynny:

**Argymhellion 39 & 40 (tudalen 34)**.

**Pysgodfeydd stoc gymysg**

39. *Dylid cyflymu'r gwaith o ddiddymu pysgodfeydd rhwyd eog stoc gymysg gam wrth gam yng Nghymru a Lloegr, ac i gyflawni hyn, dylid cynnig iawndal i rwydwyr i'w hannog i adael y pysgodfeydd hyn yn wirfoddol cyn gynted â phosib.*
40. *Dylai'r Llywodraeth ddarparu cyllid cychwynnol sylweddol i lansio trefniadau iawndal sydd â'r nod o gyflymu'r gwaith o ddiddymu pysgodfeydd rhwyd eog stoc gymysg gam wrth gam yn wirfoddol, a dylai arwain y blaen wrth sefydlu'r trefniadau hyn.*

**Derbyn mewn egwyddor**

Nododd yr ymateb drafft cyntaf:

*"Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dod i benderfyniad hyd yn hyn ar yr angen i gyflymu'r gwaith o ddiddymu pysgodfeydd rhwyd stoc gymysg gam wrth gam. Mae gennym nifer o bysgodfeydd rhwyd treftadaeth pwysig yng Nghymru a byddwn am ymgynghori'n fanwl â'r rheiny sy'n ymwneud yn uniongyrchol gyda physgodfeydd o'r fath cyn dod i benderfyniad terfynol ar rwydo yn gyffredinol."*

Ar ôl darllen yr ymateb hwn, roedd rhai ar ddeall bod gan y Cynulliad ac Asiantaeth yr Amgylchedd gynlluniau i ddiddymu rhwydo yn raddol. Yn arbennig, roedd pryder y byddai hyn yn effeithio ar bysgodfeydd treftadaeth, megis pysgota cwrwgl. I osgoi amheuaeth, diwygiwyd yr ymateb fel a ganlyn:

***"Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi'r egwyddor o ddiddymu pysgodfeydd stoc gymysg gam wrth gam. Fodd bynnag, nid oes pysgodfeydd stoc gymysg gweithredol yng Nghymru, ac felly nid yw'r argymhellion hyn yn effeithio ar fywoliaethau na gwerthoedd treftadaeth sy'n gysylltiedig â physgodfeydd rhwyd presennol. Cyn penderfynu ar unrhyw gynigion yn y dyfodol gan Asiantaeth yr Amgylchedd ynglyn â newidiadau i arferion pysgota rhwyd, bydd y Cynulliad yn ymgynghori â phawb sydd â diddordeb."***

**Argymhellion 41 & 42 (tudalen 34).**

*41. Dylai'r Llywodraeth ddefnyddio pob modd posib i barhau i roi pwysau ar lywodraeth Iwerddon i gymryd pob mesur ymarferol i leihau effaith pysgodfa rhwyd ddrifft Iwerddon ar stociau eog Cymru a Lloegr.*

*42. Dylai'r Llywodraeth barhau i wneud ei gorau i sicrhau bod NASCO yn gosod cwotâu ar bysgodfeydd eog Gorllewin yr Ynys Las ac Ynysoedd Ffaroe ar y lefel isaf bosib.*

**Derbyn y ddau**

Rydym wedi drafftio paragraff eglurhaol ychwanegol yn egluro pam fod y Cynulliad yn derbyn yr

argymhellion hyn:

***"Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pryderu am effaith pysgodfeydd stoc gymysg yng nghyffiniau Iwerddon a'r cefnforoedd ar bysgodfeydd Cymru, a bydd yn trafod yn uniongyrchol gyda Llywodraeth Iwerddon a NASCO ar fesurau i leihau'r effaith."***

**Argymhelliad 105 (tudalen 34).**

Rheoleiddio ymelwa ar eog

*105. Dylid diddymu pwerau i gyflwyno Gorchmynion Cyfyngu ar Rwydi; yn eu lle, dylai fod gan Asiantaeth yr Amgylchedd ber i gyfyngu ar niferoedd trwyddedau rhwydo trwy gyfrwng is-ddeddfau. Dylai'r pwerau ddarparu'n arbennig ar gyfer lleihau nifer y trwyddedau mewn pysgodfa rwyd lle bo hyn yn angenrheidiol ar gyfer dibenion cadwraeth. Ni ddylai is-ddeddfau sy'n cyfyngu ar niferoedd trwyddedau rhwydo fod mewn grym am fwy na deng mlynedd, ac eithrio'r rheiny sy'n gysylltiedig â diddymu pysgodfeydd stoc cymysg gam wrth gam.*

Derbyn yn rhannol

Yn sgil derbyn sylwadau pellach gan rai sydd â diddordeb ar faterion rhwydo, rydym wedi ychwanegu brawddeg ychwanegol ynglyn â Gorchmynion Cyfyngu ar Rwydi:

"Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno y dylid defnyddio is-ddeddfau yn neddfwriaeth y dyfodol i gyfyngu ar nifer y trwyddedau rhwydo eog a brithyll môr, ac y dylai'r cyfryw is-ddeddfau achosi lleihad yn nifer y trwyddedau ar unwaith lle bo hyn yn angenrheidiol ar gyfer dibenion cadwraeth. Nid yw wedi ei argyhoeddi, fodd bynnag, mai dim ond am 10 mlynedd y dylai is-ddeddfau sy'n cyfyngu ar nifer rhwydi fod mewn grym, ar yr amod eu bod yn darparu ar gyfer adolygu rheolaidd. ***Bydd unrhyw gynigion am newid yn destun ymgynghoriad cyhoeddus***."

**Argymhelliad 10 (tudalen 28)**

*10. Dylai Asiantaeth yr Amgylchedd ehangu ei hymdrechion i ddatblygu pysgodfeydd a hyrwyddo pysgota mewn ardaloedd trefol, er mwyn gwneud pysgota yn fwy hwylus i bobl anabl ac i hyrwyddo pysgota ymhlith pobl ifanc. Dylai'r Llywodraeth ddarparu cyllid ychwanegol tuag at y dibenion hyn.*

Ar 16 Mai gofynnwyd i'r Gweinidog pam mai ond yn rhannol y derbynnir yr argymhelliad hwn ynghylch datblygu a hyrwyddo pysgota mewn ardaloedd trefol ac ar gyfer pobl anabl a phobl ifanc. ***Dim ond yn rhannol y derbynnir yr ymateb oherwydd teimlir y dylai'r argymhelliad fod yn berthnasol i Gymru gyfan, nid i ardaloedd trefol yn unig. Mae ymateb y Cynulliad yn adlewyrchu hyn.***

**Argymhelliad 100 (tudalen 30)**

*100. Os ystyrir unrhyw bwerau yn angenrheidiol i reoli mynediad i gynefinoedd dwr croyw, dylid eu cynnwys mewn deddfwriaeth amgylcheddol gyffredinol.*

Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd hi'n bosibl cyflwyno tymor gwaharddedig ar bysgota er mwyn amddiffyn adar nythu prin. *Pe bai mesur o'r fath yn cael ei ystyried yn briodol, byddai'n rhaid ei ystyried fel rhan o ddeddfwriaeth amgylcheddol, felly byddai'n cael ei ystyried gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd.*

**Cydymffurfiaeth**

5. Ar hyn o bryd, dim ond argymhellion i'w hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol yw'r rhain, a gall roi sylwadau arnynt o dan bwerau yn Adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Os derbynnir unrhyw un o'r argymhellion ac mae angen newidiadau polisi neu ddeddfwriaeth, bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn cyflwyniadau ar wahân a chaiff materion o gydymffurfiaeth eu hystyried bryd hynny. Nid oes materion rheoleidd-dra na phriodoldeb. Mae Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad wedi gweld y cyngor hwn ac mae'n fodlon.

**Goblygiadau Ariannol**

6. Bydd nifer o'r argymhellion yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol. Os cytunir ar yr ymateb drafft, byddai rhai goblygiadau staffio gan gynnwys yr angen i sefydlu tîm mesur yn y pen draw. DEFRA fyddai'n arwain, ond bydd rhywfaint o waith ychwanegol i Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir ei gynnwys o fewn cyllidebau costau gweinyddol cynlluniedig yr Adran Amaethyddiaeth. Ni fyddai gan unrhyw un o'r argymhellion ynglyn â deddfwriaeth pysgodfeydd eog a dwr croyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r Cynulliad.

7. Mae'r gyllideb ddrafft, a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cyllid ar 18 Hydref yn cynnwys cymorth grant o £800mil y flwyddyn i Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer y blynyddoedd 2002, 2003 a 2004. Bydd yr adnoddau hyn yn galluogi'r Asiantaeth i weithredu ar argymhellion y Grwp Adolygu a bydd hefyd yn cefnogi cais prosiect Amcan Un yr Asiantaeth i gefnogi elfennau o'r astudiaeth Nautilus ar Bysgodfeydd Môr a Mewndirol yng Nghymru. Bydd yr Asiantaeth yn derbyn llythyr gorchwyl yn pwysleisio bod yn rhaid defnyddio'r cymorth grant ychwanegol yn benodol i weithredu argymhellion yr Adolygiad.

**Pwynt Cyswllt**: Mr G K Perryman